

|                         |                             |
|-------------------------|-----------------------------|
| Eich Cyf/Your Ref       | IR/ELL                      |
| Ein Cyf/Our Ref         | 9 Gorffennaf / July 2020    |
| Dyddiad/Date            | Ian Roberts                 |
| Gofynner am/Ask for     |                             |
| Rhif Cyswllt/Contact No |                             |
| E-bost/E-mail           | ian2.roberts@wrexham.gov.uk |

Annwyl Riant/Gofalwr / Dear Parent/Carer

Mewn ymateb i'r cyhoeddiad gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg y byddai ysgolion yn cau at ddibenion addysg ar 20 Mawrth, darparodd Cyngor Bwrdeistref Wrexham, trwy ein hysgolion, gyfleusterau gofal plant mewn ysgolion ar gyfer gweithwyr allweddol gan gynnwys dros wyliau'r Pasg a chyfnod hanner tymor. Ail-bwrpaswyd ysgolion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cyfleusterau hyn.

Roedd hyn yn bosibl oherwydd ymrwymiad ac ymroddiad staff ein hysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Roedd y dull yn Wrexham yn hynod lwyddiannus a darparodd ymateb ar unwaith i anghenion gofal plant brys ar gyfer rheini sydd ar reng flaen yr achos cenedlaethol i leihau effaith y pandemig coronafirws.

Ar Fehefin 29ain cyhoeddodd y Prif Weinidog Cymru fod pobl o ddwy aelwyd ar wahân yn gallu ymuno i ffurfio un cartref estynedig unigryw o Orffennaf 6ed ymlaen. Bydd creu un cartref estynedig yn galluogi teuluoedd i gael eu haduno a bydd hefyd yn helpu i gefnogi rhieni sy'n gweithio gyda gofal plant anffurfiol dros fisoedd yr haf wrth i fwy o fusnesau ailagor eu drysau a dychwelyd i drefniadau gweithio ffurfiol. Mae codi cyfyngiadau yn caniatáu i ofal plant gael ei ddarparu trwy ddulliau mwy arferol. O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru yn

In response to the announcement by Kirsty Williams, Minister for Education that schools were to close for education purposes on 20 March, Wrexham Borough Council, through our schools, provided childcare facilities in schools for key workers including the Easter holiday and half term period. Schools were re-purposed in line with Welsh Government's guidance to provide these facilities.

This was possible due to the commitment and dedication of our school staff across the County Borough. The approach in Wrexham was highly successful and provided an immediate response to the emergency childcare needs for those on the frontline of the national cause to minimise the impact of the coronavirus pandemic.

On 29 June the First Minister announced that people from two separate households are able to join together to form one exclusive extended household from 6 July. Creating a single extended household will enable families to be reunited and will also help support working parents with informal childcare over the summer months as more businesses reopen their doors and return to formalised working arrangements. The lifting of restrictions allows for childcare to be delivered by more normal means. As a result, Welsh Government will not be funding childcare for

ariannu gofal plant i blant oed ysgol gweithwyr allweddol dros yr haf.

O achos hyn, ni fydd ysgolion ar agor ar gyfer gofal plant dros gyfnod gwyliau'r haf ar gyfer plant oed ysgol gweithwyr allweddol. Mae hyn yn gyson â'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol eraill, ac yn rhoi cyfle i ddarparwyr gofal plant ailsefydlu eu busnesau fel ffordd o sicrhau bod anghenion gofal plant yn cael eu diwallu.

Mae croeso i deuluoedd sydd am gael mynediad at ofal plant gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth yr awdurdod lleol ar [fis@wrexham.gov.uk](mailto:fis@wrexham.gov.uk) neu 01978 292094 - neu ar wefan y cyngor yn <https://www.wrexham.gov.uk/service/childrens-social-care/childcare>

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i fynegi diolch i rieni a gofalwyr am eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad yn ystod yr amseroedd heriol hyn a'r amseroedd digynsail.

school-aged children of key workers over the summer.

Consequently, schools will not be open for childcare over the summer holiday period for school-aged children of key workers. This is consistent with what is happening in other local authorities, and provides an opportunity for childcare providers to re-establish their businesses as a means to ensure that childcare needs are met.

Families wishing to access childcare are welcome to contact the local authority's Information Service on [fis@wrexham.gov.uk](mailto:fis@wrexham.gov.uk) or 01978 292094 – or on the council website at <https://www.wrexham.gov.uk/service/childrens-social-care/childcare>

Finally, I would like to take this opportunity to express gratitude to parents and carers for your understanding and cooperation during these challenging times and unprecedented times.

Yn ddiffuant / Yours sincerely



Ian Roberts

**Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar /**  
**Chief Officer Education and Early Intervention**